



Polisi Addysg Atal Cyffuriau ac Alcohol

Ysgol Bro Plenydd

Mae'r polisi yma yn egluro beth sydd yn cael ei ddysgu o fewn gwersi Atal Cyffuriau ac Alcohol

Beth ydym am wneud?

Mae'r Polisi yma yn egluro beth mae'r ysgol yn ddysgu o fewn gwersi Atal Cyffuriau ac Alcohol er mwyn i blant yr ysgol fod yn gwybod y peryglon o ddefnyddio cyffuriau ac alcohol a beth yw'r effaith ar y corff.

Amcanion - Yn dilyn y gwersi byddwn yn

- Parchu eich corff a chorff pobl eraill
- Mwynhau a chymryd mwy o gyfrifoldeb dros gadw'r corff yn ddiogel ac yn iach
- Bod yn onest ac yn deg a pharchu rheolau
- Bod yn ymwybodol o'r gyfraith
- Medru dweud NA os yw ffrindiau neu unrhyw un arall yn rhoi pwysau arnom
- Medru gwneud penderfyniadau da
- Sut i wneud penderfyniadau da er mwyn osgoi problemau
- Gwybod beth yw effaith tybaco, alcohol, cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon ar y corff
- Gwybod beth i'w wneud neu at bwy i fynd os nad ydych yn teimlo'n ddiogel
- Gwybod sut mae ysmegu'n effeithio'r amgylchedd a phobl eraill


Sut rydym am wneud hyn?

- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod at bwy neu i ble fedran fynd am help
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn gwybod am linell gymorth Childline
- Gwneud yn siŵr bod pawb yn teimlo'n ddiogel
- Gwneud yn siŵr bod plant yr ysgol yn cadw'n ddiogel
- Trafod efo'r disgyblion beth hoffan nhw ddysgu o fewn rhaglen addysg atal cyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon
- Trafod effaith cyffuriau ac alcohol ar y corff
- Trafod yn ystod Amser Cylch
- Gosod poster neu sticeri **Dim Ysmegu** o amgylch yr ysgol



Byddwn yn Dysgu

- Beth yw moddion
- Beth yw effeithiau tybaco, alcohol a chyffuriau cyfreithlon ac anghyfreithlon ar y corff
- Dysgu'r sut i barchu ein hunain ac eraill.
- Sut mae bwyd, diod a chyffuriau yn pasio drwy'r corff
- Sut i gadw'n ddiogel
- Sut i ddweud Na os oes rhywun yn cynnig alcohol, sigarét neu gyffuriau i chi



Rhieni a theuluoedd - Byddwn yn rhoi gwybodaeth i rieni a gwarchodwyr drwy :

Rhannu'r polisi trwy wefan yr ysgol neu/a llawlyfr yr ysgol.
Gosod posteri neu sticeri **Dim Ysmygu** o amgylch yr ysgol er mwyn atgoffa pawb bod nhw ddim i ysmygu ar dir yr ysgol.

Cadw llygaid ar ein polisi

Bydd yr ysgol yn trafod y Polisi bob 3 blynedd er mwyn gwneud yn siŵr ei fod yn gweithio'n iawn a bod ni'n gwneud popeth yr ydym wedi ymrwymo i'w wneud.